Y Cerddwr

RHIFYN 66

Y Cerddwr The Ramblers

YR ELUSEN SY'N GWEITHIO AR RAN CERDDWYR

Cerdded yr arfordir yng Nghymru – mae'r newyddion yn galonogol

Tywod Marloes yn Sir Benfro. ©Andrew Davies

A yw'r syniad o allu cerdded arfordir Cymru yn eich cyffroi? Bydd yr 800 milltir llawn yn dipyn o daith ond byddai sicrhau mynediad o ansawdd uchel o amgylch cyrion Cymru yn dipyn o wobr.

Ond mae ffordd bell i fynd oherwydd mai dim ond 60% o arfordir Cymru sydd â mynediad diogel, gyda'r gweddill yn anniogel neu'n anhygyrch1 er gwaetha'r ffaith fod 94% o bobl Cymru (a Lloegr) yn dweud bod arnynt eisiau hawl mynediad cyfreithiol i'r arfordir2. Dyna i chi beth ydy her! Mae gwaith calonogol yn digwydd gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu rhaglen i wella arfordir Cymru. Mae'r cynllun hwn yn anelu at greu llwybr arfordirol i Gymru gyfan a rhwydweithiau o lwybrau o amgylch cymunedau arfordirol a gwell mynediad i seiclwyr, merlotwyr, y rhai hynny gyda phlant ifanc a phobl gydag anableddau. Darparwyd £1.5 miliwn ar gyfer blwyddyn 1 ac mae pob un o'r 16 o awdurdodau lleol arfordirol wedi gwneud cais am gyllid. Bydd ceisiadau'r flwyddyn gyntaf yn cyllido cynlluniau ar gyfer datblygu mynediad arfordirol ym mhob awdurdod lleol yn ogystal â rhywfaint o waith ar y llawr.

A yw hyn yn ddigon? Nid yw llwybrau yn unig yn darparu'r fframwaith lawn i sicrhau bod pobl yn mwynhau'r arfordir yn dawel. Rydym wedi bod yn lobïo am gefnogaeth i goridor lletach o fynediad. Rydym yn falch o glywed am ymrwymiad Llafur Cymru ym maniffesto 2007 i "ymchwilio i greu hawl mynediad arfordirol statudol". Mae'r pleidiau eraill hefyd wedi mynegi cefnogaeth i fynediad hefyd er nad oes dim byd mor benodol, ond yn hanfodol bwysig, mae mynediad statudol yn parhau ar yr agenda gwleidyddol. Mae Cerddwyr Cymru yn dweud ei bod yn hanfodol fod â deddfwriaeth i greu'r mynediad newydd hwn. Bydd angen ewyllys wleidyddol hefyd a digon o arian newydd, sydd i gyd yn hanfodol ar gyfer mynediad o ansawdd uchel.

Mae'r arwyddion cynnar yn galonogol ond y gwir wobr fydd gosod llwybr ar gyfer Cymru gyfan a gwell mynediad llinol o fewn coridor sydd wedi ei ddynodi ar gyfer mynediad, bywyd gwyllt a manteision o ran tirlun, a ddylai wrth gwrs gynnwys traethau, clogwyni a thir cyfagos. Dyma'r hyn rydym yn gofyn amdano ar ran y cyhoedd a dyma fe gredwn yw'r ffordd orau o gyflwyno'r holl fanteision posibl i iechyd y gymuned a'r manteision economaidd y mae'r cyfle gwych hwn yn eu codi.

Mae Cerddwyr Cymru hefyd yn chwilio am fesurau amaeth-amgylchedd i wella ansawdd mynediad a'r gwerth o safbwynt bioamrywiaeth. Dylai Cymru anelu at fod â'r mynediad arfordirol gorau yn y byd – hyd yn oed yn well na'r hyn sy'n cael ei fwynhau yn yr Alban, gwledydd Llychlyn, Ffrainc, Denmarc a Phortiwgal. Gyda'ch cymorth chi byddwn yn cyflawni hyn.

1. Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Chwefror 2006
2. Pôl Piniwn ICM. Mai 2006

Dywed **Jane Davidson** ein bod yn awyddus i gyflwyno mynediant arfordirol statudol a'n bod yn edrych ar fodel y coridor arfordirol. Os hoffech chwarae eich rhan yn lleol a fyddech cystal â chysylltu â ni ar **02920 644308,** cerddwyr@ramblers.org.uk

Helo Eto ...

Beverley Penney

Mae'r Cerddwyr wedi bod yn cael amser da. Rydym wedi bod yn datblygu ein syniadau am fynediad arfordirol, rydym dros ein pennau a'n clustiau mewn gwaith achos ar lwybrau ac yn gweithio gyda chymunedau lleol i ddeall y materion ynghylch y llawer mwy o dyrbinau gwynt sydd wedi eu cynllunio ar gyfer tirluniau arbennig yng Nghymru. Mae prosiect Cerrig Camu/Stepping Stones yn datblygu'n dda hefyd. Mwynhawyd Cyngor Cymru anhygoel yn 2007 yn y Barri gyda Jane Hutt AC yn siarad â ni. Yn y cyfarfod awgrymwyd efallai yr hoffem ddechrau defnyddio Cerddwyr Cymru fel teitl cyfeillgar. Cafodd hyn ei gefnogi a gobeithiwn eich bod yn ei hoffi ac y byddwch yn dweud wrthym os nad ydych!

Rydym yn awyddus i chi gynnwys Defnyddio Eich Llwybrau o fewn eich cerdded arferol, felly pan fyddwch wedi cerdded y llwybrau mewn sgwâr grid km, cliciwch ar y wefan i ddweud eich bod wedi gwneud hynny yn www.useyourpaths.info

Roedd 75 pen-blwydd yr achos o dresmasu gan y lliaws yn Kinder Scout a gynhaliwyd yn ddiweddar yn achlysur i'w ddathlu oherwydd bod Gweinidog yr Amgylchedd yn San Steffan, David Milliband, wedi dod i gadarnhau ei gyhoeddiad ynghylch fframwaith i fynediad arfordirol yn Lloegr yn unol ag argymhellion Cymdeithas y Cerddwyr (fel ar dudalen 1).

Mae adeg yr etholiad wedi mynd a dod a byddwn wrth gwrs yn gweithio gyda phwy bynnag sy'n dod i rym yn y Cynulliad ac yn rhoi gwybod i chi beth yr ydym ni a nhw yn ei gynllunio. Bydd y syniadau hyn ynghyd â chyfraniadau gan Gynghorau Cymru a Chynghorau Cyffredinol yn bwydo i mewn i'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mwynhewch gerdded!

Beverley
Cyfarwyddydd Cymru

2007

GORFFENNAF
23 - 26 – Sioe Frenhinol Cymru, Llanfair-ym-Muallt. Croeso i wirfoddolwyr.

AWST
4 - 12 – Eisteddfod Genedlaethol, yr Wyddgrug. Croeso i wirfoddolwyr.
13 – Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Ardal Powys

MEDI
16 – Diwrnod Cerdded Cenedlaethol

RHAGFYR
26 - 2 Ion 2008 – Wythnos o deithiau cerdded yn y gaeaf

EBRILL 2008
12 - 13 – Cyngor Cymru

Uchod: Aelodau Cyngor Cymru a'u gwesteion. Ar y dde: Y Faer a'r Faeres Nic a Shirley Hodges yng Nghyngor Cymru, Y Barri, Bro Morgannwg

Hyrwyddo Cerdded

Mae ein hymrwymiad i deithiau cerdded byr yn parhau a chynigir grant blynyddol o £150 i grwpiau sy'n gallu bodloni meini prawf Cerrig Camu/Stepping Stones (manylion o'r swyddfa). Rydym yn datblygu prosiectau cerdded pellach ac rydym mewn cysylltiad â grwpiau ynglŷn â'r rhain. Mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi cymryd yr arweiniad dros hyrwyddo cerdded oddi wrth Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Mwy o newyddion yn fuan.

Cerrig Camu / Stepping Stones
DIWEDDARIAD

Cymdeithas y Cerddwyr, 3 Iard y Cowper,
Ffordd Curran, CAERDYDD. CF10 5NB
Ffon: 029 2064 4308 • Ffacs: 029 2064 5187
Ar y we: www.ramblers.org.uk
e bost: cerddwyr@ramblers.org.uk

Mae Cymdeithas y Cerddwyr yn elusen gofrestredig (rhif 1093577) ac yn gwmni a gyfyngir gan warant yng Nghymru a Lloegr (rhif 4458492).
Swyddfa gofrestredig: Camelford House, 87-89 Albert Embankment, Llundain, SE1 7TW.

Mynediant – y ffordd ymlaen

Roedd llwyddiant Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 i sicrhau bod 21 y cant o Gymru yn dir mynediad wedi ei fapio yn glod i'r Cerddwyr am fod wedi datblygu'r syniad, i'r Cynulliad am rannu'r weledigaeth ac i Gyngor Cefn Gwlad Cymru am fapio'r tir.

Mae'r Cerddwyr wedi gweithio i sicrhau'r manteision mwyaf posibl i'r cyhoedd sy'n cerdded dros y ddegawd ddiwethaf a mwy. Ond beth nesaf? Dros y deunaw mis diwethaf mae'r Cerddwyr wedi bod yn datblygu dull newydd o sicrhau mynediad ac wedi mabwysiadu dull o ofyn am fynediad yn raddol felly mynediad arfordirol yn gyntaf ac yna ystyried mynediad ar lannau dŵr a byddwn yn adolygu cynnydd i weld ble y dylem ddatblygu mynediad nesaf. Mae'r Cerddwyr yn edmygu ac yn gweld llawer o fanteision i Ddeddf Diwygio Tir yr Alban 2003 a gyflawnwyd gyda chyfraniad enfawr oddi wrth Gymdeithas y Cerddwyr yr Alban ond mae'n rhaid i'r Cerddwyr yng Nghymru a Lloegr ystyried y ffordd orau o ddatblygu mynediad a llwybrau gyda'i gilydd ac felly mabwysiadwyd'r dull graddol. Mae gwaith pellach yn cael ei wneud ar ein strategaeth llwybrau ar gyfer y dyfodol a bydd ymgynghoriad yn yr Hydref.

Ail Ŵyl Cerdded Calon Cymru

Llandrindod, Powys
14 - 16 Medi, 2007

Dyma Wlad y Barcud, mae'r tir yn amrywio o fryniau tonnog i dir cymharol arw sy'n cynnwys dyffrynnoedd cul, ceyrydd mynyddig hynafol, rhywfaint o gerdded ar lannau afonydd, olion o feddiannaeth Rufeinig, a llawer o eitemau o ddiddordeb hanesyddol yn yr ardal anadnabyddus hon o Gymru.

Bob dydd bydd dewis o deithiau i'w cerdded trwy'r dydd, teithiau dau neu dri hanner diwrnod gyda thema fel eglwysi, hanes naturiol, daeareg, hanes cyffredinol, a thaith dreftadaeth fer o amgylch tref wedi ei chynllunio ar gyfer teuluoedd.

Y ffi am gofrestru yw £5 + £1 ar gyfer bob tro. Gellir trefnu llety drwy ymweld â www.gomidwales.co.uk. I gael manylion pellach - www.llandrindod.co.uk

HYRWYDDO CERDDED >>>

Llwybr yr Arfordir yng Ngheredigion

gan David Bateman Swyddog Llwybrau Ardal Ceredigion

Wrth i argymhellion y Cynulliad ar gyfer llwybr arfordirol ar gyfer Cymru gyfan fod yn dechrau symud ymlaen, mae cynllun llwybr arfordirol Cyngor Sir Ceredigion bron â'i gwblhau. Er gwaethaf ei olygfeydd arfordirol ysblennydd, mae Ceredigion bob amser wedi bod yn brin o lwybr di-dor addas, yn arbennig yn ne'r Sir. Yn fuan iawn yn awr, ar ôl gwireddu cynllun Amcan 1 mawr, bydd llwybr di-dor ar gael o'r diwedd.

Ei nodweddion allweddol yw:

- Mae'r rhan fwyaf o'r bylchau wedi eu llenwi drwy gytundeb yn dilyn trafod amyneddgar gan Nigel Nicholas, Swyddog Prosiect Llwybr Arfordirol y Cyngor.
- Mae'r llwybr ar ei hyd yn darparu mynediad sy'n barhaol ac wedi ei ddiffinio'n gyfreithiol yn hytrach na bod yn llwybr goddefol yn unig.
- Ar gyfer y rhan fwyaf o'i hyd mae'r llwybr yn agos at ymyl yr arfordir.
- Lle bynnag y bo hynny'n bosibl, gwnaed trefniadau i roi ystyriaeth i erydiad disgwyliedig ar yr arfordir.
- Ychydig iawn o'r llwybr sydd ar y ffordd.
- Yn yr ychydig achosion lle nad oedd trafod yn bosibl, roedd y Cyngor yn barod i ddefnyddio ei bwerau gorfodol i greu llwybrau. Arweiniodd gwrthwynebiadau at ymchwiliad cyhoeddus tri diwrnod gyda chyfranogiad Cymdeithas y Cerddwyr.

Mae'r Arolygydd bellach wedi cadarnhau argymhellion y Cyngor yn ddarostyngedig i fân ddiwygiadau.

- Mae Gweithgorau Llwybrau Grwpiau'r Cerddwyr yn Aberteifi ac Aberystwyth wedi cyfrannu'n sylweddol at y gwaith sydd wedi ei wneud gyda llu o gamfeydd, giatiau a phontydd.

Dim ond un broblem sydd ar ôl. Ger Parc Fferm Ynys Aberteifi dewisodd y Cyngor Sir, efallai yn ofni y gallai llwybr ar ymyl yr arfordir olygu costau iawndal na allai ei fforddio, lwybr llai deniadol. Er gwaethaf apêl gan Gymdeithas y Cerddwyr am lwybr ar hyd ymyl yr arfordir, penderfynodd yr Arolygydd o blaid argymhellion y Cyngor.

Gallai aelodau Cymdeithas y Cerddwyr sy'n ymwneud â'r partneriaethau mynediad arfordirol newydd mewn rhannau eraill o Gymru elwa o wneud astudiaeth fanwl o achos Ceredigion.

Cerddwyr Aber, Ceredigion

WALKING HOLIDAYS

Pioneered by us.
Much imitated.
Never bettered.

• EXPERIENCED LEADERS
• EUROPE & WORLDWIDE
• GRADES TO SUIT ALL

RAMBLERS HOLIDAYS
the Original Walking Co
Telephone 01707 331133 Ref.PRA
ramblersholidays.co.uk
ABTA V5094 • ATOL Protected 0990

CYSTADLEUAETH FFOTOGRAFFIG #2

mewn cysylltiad â: COTSWOLD

Galw ffotograffwyr! Rydym yn chwilio am eich delweddau gwreiddiol sy'n dangos harddwch ac amrywiaeth cefn gwlad Cymru ar gyfer cystadleuaeth ffotograffig. Bydd pob un o'r ymdrechion buddugol yn derbyn rycsac ffantastig werth rhwng £35 a £65 diolch i haelioni Cotswold Outdoor a bydd eu ffoto yn cael ei gyhoeddi mewn rhifyn o Cerddwr Cymru yn y dyfodol.
Mae pedwar categori:

- **Golygfeydd gwych** – ein cefn gwlad rhyfeddol;
- **Pobl a lleoedd** – yn dangos ystod ac amrywiaeth y bobl sy'n mwynhau cerdded yng Nghymru;
- **Craith ar y tirlun** – unrhyw beth o sbwriel i adeilad wedi ei ddylunio'n wael
- **Rhwystrau ar fy llwybr** – pethau sydd ar eich ffordd

Dyddiad cau: 30 Medi 2007

- Gall ffeiliau gael eu hanfon yn ddigidol neu fel copi caled (printiau, tryloywderau).
- Cynhwyswch bennawd byr yn disgrifio union leoliad y ffotograff (gan gynnwys y cyfeirnod grid) a rhywfaint o gefndir (pam fod rhywbeth wedi dal eich llygad, pam fod y ddelwedd yn unigryw ac ati).
- Cyhoeddir yr enillwyr yn rhifyn nesaf Cerddwr Cymru.
- Rydych yn rhoi caniatâd i ni ddefnyddio eich ffotograffau.

A fyddech gystal ag anfon eich ceisiadau at: Cymdeithas y Cerddwyr, 3 Iard y Cowper, Ffordd Curran Caerdydd. CF10 5NB. neu cerddwyr@ramblers.org.uk

MYNEDIANT ARFORDIROL >>>

Beth yw eich barn chi?

Ymgynghori ag Awdurdodau Lleol ynglŷn â'r Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy (ROWIPs) drafft.

Beth yw Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy (ROWIPs)?

Mae Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy (ROWIPs) yn ddogfennau pwysig sy'n cael eu paratoi ar hyn o bryd gan yr holl awdurdodau priffyrdd lleol yng Nghymru. Dylai ROWIPs fesur cyflwr yr hawliau tramwy a chreu cynlluniau cydlynol i wella rheolaeth dros y deng mlynedd nesaf. Mae'n ofynnol i'r holl awdurdodau lleol fod â'u cynlluniau wedi eu cwblhau erbyn Tachwedd 2007 – bydd hyn yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â drafft terfynol yr ROWIPs. Mae rhai awdurdodau lleol wedi cyhoeddi eu dogfennau drafft ac mae eraill ar y ffordd (gofalwch eich bod yn edrych ar wefannau awdurdodau lleol am wybodaeth).

Mae rhwydwaith yr hawliau tramwy mor bwysig fel y dylai ROWIPs fod yn gynlluniau sylfaenol ar gyfer gwella hamdden yng nghefn gwlad a gwella'r sefyllfa yn y dref hefyd e.e. mae gan Gaerdydd, Abertawe a Merthyr fapiau diffiniol sydd ar goll neu yn anghyflawn.

Y cyfle olaf i gyfrannu

Mae Cymdeithas y Cerddwyr eisoes wedi chwarae rôl allweddol ym mhroses gyfan yr ROWIP fel un yr ymgynghorir â hi ac fel ffynhonnell arbenigedd ynglŷn â rhwydwaith y llwybrau. Mae gan y Cerddwyr bobl sydd wedi eu dewis i drafod pob ROWIP. *Cysylltwch drwy gyfrwng y swyddfa.*

Pethau i chwilio amdanynt

Wrth ystyried ROWIP drafft mae nifer o bethau pwysig i'w cofio. Y cwestiwn allweddol i'w ofyn yw beth sydd arnom ni fel defnyddwyr ei eisiau oddi wrth yr ROWIPs? Meddyliwch yn strategol a cheisiwch weddu eich ymateb i amcanion ROWIP. Mae ROWIPs yn ymwneud â hawliau tramwy yn lleol, dylent fesur eu cyflwr ac ystyried eu hanghenion yn y presennol a'r dyfodol, y bylchau a'r gwendidau a'r anghenion o ran symudoledd hefyd.

Yna dylent gynnig datganiad o weithredu sy'n cyflwyno manylion clir ynglŷn â'r camau a fwriedir.

Awgryma'r enghraifft yng nghanllawiau'r Cynulliad ar gyfer ROWIPs y dylent "gynnal y rhwydwaith o lwybrau yn y Sir fel eu bod yn "hawdd i'w defnyddio." Felly mae'r datganiad hwn o weithredu yn hanfodol i'r ddogfen a gwella hawliau tramwy yn y dyfodol. Dylai gynnwys gwaith cynnal, rheoli mapiau diffiniol, gorfodaeth a gwarchodaeth, hygyrchedd i wahanol ddefnyddwyr, gwelliannau i lwybrau, hyrwyddo, cyhoeddusrwydd a monitro ac adrodd. Dyma'r adran lle bydd yr awdurdod yn amlinellu beth mae'n bwriadu ei wneud ac yr un mor bwysig, sut y bydd yn ei wneud. Cofiwch edrych ar sut y mae'r awdurdod yn bwriadu blaenoriaethu ei raglen waith ac a yw hyn yn cyd-fynd ag anghenion cerddwyr. Dyma hefyd yr adran lle gall cynlluniau blaenoriaethu ar gyfer hawliau tramwy ymddangos a gofalwch sicrhau nad yw'r rhain yn gyfystyr â rhesymoli.

Mae ar awdurdodau angen mewnbwn lleol i wneud eu ROWIP yn berthnasol ac i sicrhau bod cerddwyr lleol yn gwybod beth sydd angen ei wneud! Os nad yw pwnc arbennig ynglŷn â mynediad yn cael ei grybwyll yn yr ROWIP a'ch bod yn credu y dylai, dywedwch wrthynt amdano. Bydd y manylion penodol hyn yn gwneud y gwahaniaeth i gyd i bobl leol ac yn dod â'r gwelliannau sydd wedi eu targedu a fydd o fwyaf o fudd i ddefnyddwyr.

Os dymunwch gael mwy o ganllawiau, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyflwyno ei ddisgwyliadau gan bob awdurdod priffyrdd (h.y. Cyngor Sir) wrth baratoi yr ROWIP ar gyfer ei ardal mewn dogfen o'r enw Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy: Arweiniad i Awdurdodau Priffyrdd Lleol yng Nghymru. Mae'r copi llawn ar gael oddi wrth Gangen Polisi Cefn Gwlad ac Arfordirol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar (029) 2080 1398 neu ar-lein yn: http:www.wales.gov.uk

Mike Mills Swyddog Hawliau Tramwy

Hyfforddiant ar gyfer Llwybrau yng Nghymru

Yn dilyn y dyddiau hyfforddi lefel sylfaenol llwyddiannus a gynhaliwyd gan Gerddwyr Cymru yn ystod 2006, cynlluniwyd tri diwrnod arall ar gyfer 2007. Mae sesiynau ar agor i bawb ac rydym yn arbennig o awyddus i glywed oddi wrth aelodau newydd a rhai sy'n bodoli'n barod neu wirfoddolwyr a hoffai fod â mwy o ran yn y broses o gadw rhwydwaith ein llwybrau ar agor ac mewn cyflwr da. Dangosir dyddiadau a lleoliadau isod:

- **Diwrnod Hyfforddi Gogledd Cymru** – 14 Gorffennaf 2007 yng Nghanolfan Glasdir, Llanrwst
- **Diwrnod Hyfforddi De Cymru** – 22 Medi 2007 (lleoliad i'w gadarnhau).

I gael mwy o wybodaeth neu i archebu eich lle cysylltwch â Mike Mills yn Swyddfa Cymru ar 029 20 644 308 neu ebostiwch mikem@ramblers.gov.uk

Aelodau yn un o'n Dyddiau Hyfforddi llwyddiannus ar gyfer Llwybrau

Her Defnyddiwch Eich Llwybrau

Ydych chi wedi llenwi sgwâr?

Chwaraewch eich rhan yn yr her Defnyddiwch Eich Llwybrau – cerdded yr holl hawliau tramwy yng Nghymru a Lloegr erbyn Medi 2007. Dyma'r prosiect cerdded mwyaf erioed yn y DU!

Gall unrhyw un ymuno – fel unigolion neu fel rhan o grŵp.

Gwobr yr Haf Raffl 2007

Cyflwynwch eich sgwariau wedi eu cwblhau a bydd pob un ohonynt yn cael ei roi mewn raffl gyda gwobrau iddi. Bydd y pum sgwâr cyntaf i'w tynnu yn ennill gwobr.

Beth i'w wneud...

1. **Dewiswch sgwâr (neu sgwariau) grid i'w cerdded. Fe welwch y grid cenedlaethol ar y rhan fwyaf o fapiau.**
2. **Cerddwch yr holl hawliau tramwy cyhoeddus (gweler allwedd y map am wybodaeth) yn eich sgwâr(iau) dewisedig.**
3. **Dywedwch wrth y cyngor perthnasol am unrhyw broblemau y deuwch ar eu traws (rhwystrau, arwyddbyst coll ac ati).**
4. **Cyflwynwch eich sgwariau wedi eu cwblhau a bydd y rhain yn cael eu troi yn wyrdd wedi i chi eu rhoi ar fap rhyngweithiol 'Defnyddiwch eich Llwybrau' yn www.useyourpaths.info**

A dyma'r cyfan – mae'n syml ac yn hwyl...

Ac fel ysgogiad ychwanegol ar gyfer haf 2007, bydd pob sgwâr a gwblheir yn cael ei roi mewn raffl a fydd yn rhoi cyfle i chi ennill un o bum gwobr. Llenwch a chofrestrwch y sgwâr neu'r sgwariau yr ydych wedi eu dewis fel y dangosir uchod. Pan fydd eich sgwâr (neu sgwariau) wedi eu troi yn wyrdd, hysbyswch Swyddfa Cymru a bydd pob un yn cael ei roi yn y raffl. Cofiwch ...nid oes unrhyw derfyn ar nifer y sgwariau y gallwch eu cyflwyno a pho fwyaf o sgwariau a lenwch... y gorau fydd eich siawns o ennill gwobr.



CEFN GWLAD >>>

Gorwelion clir ar gyfer Dyffrynnoedd Cymru?

Mae mynyddoedd a dyffrynnoedd de Cymru a oedd ar un adeg wedi eu creithio gan gloddio am lo ar raddfa fawr, yn wyrdd unwaith eto, ac yn cynnig ardal helaeth o waun a rhos sy'n holl bwysig i lawer o deithiau cerdded ein grwpiau Cerddwyr.

Fferm wynt uwch ben Abercregin

Ond mae'r tirluniau hyn unwaith eto yn cael eu bygwth gan ddatblygiad ar raddfa fawr – y tro hwn gan dyrbinau gwynt. Nid yw gwybodaeth y cyhoedd am y datblygiadau hyn yn helaeth. Mewn rhwystredigaeth, mae Cerddwyr Ardal Morgannwg wedi bod yn brysur yn codi ymwybyddiaeth yn eu cymunedau i gael pobl i ymateb i geisiadau cynllunio a lobïo eu cynghorwyr, AauC ac AauS. Dyluniwyd cyfres o chwech o deithiau cerdded – 'Gorwel Agored' i fynd â phobl, aelodau a rhai nad ydynt yn aelodau, i'r mynyddoedd i weld y golygfeydd sydd o dan fygythiad. Gyda bron i 200 o bobl yn ymddangos ar gyfer y tro cyntaf, mae'n amlwg bod teimladau cryfion ynglŷn â'r mater hwn. Arweiniwyd y teithiau gan arweinwyr y Cerddwyr yn yr hyn sydd wedi dod yn ganol ymgyrch wirioneddol leol.

Mae'r diddordeb gan y cyfryngau wedi bod yn gryf, gyda newyddiadurwyr yn cael eu denu i fynd ar y teithiau cerdded. Cyfwelwyd David James (Cwm Cynon) a Neil Perry (Maesteg) ar raglenni ar radio lleol.

Rhoddodd ITV Cymru sylw hefyd i un o deithiau Gorwel Agored ar eu rhaglen arbennig ar egni adnewyddadwy ar 'Wales This Week' ym mis Chwefror.

Mae llythyrau i'r wasg leol wedi ychwanegu at ymgyrch i gyfnewid sylwadau am y mater hwn ar draws yr ardal i gyd. Mae Terry Griffiths, Gr ŵp Castell Nedd Port Talbot wedi defnyddio ei gymhorthfa fel AS (gyda Peter Hain, dim llai) i gyflwyno safbwynt y Cerddwyr ynglŷn â gwerth tirluniau agored i iechyd, hamdden a thwristiaeth. Mae Terry wedi nodi bod safiad y gwleidyddion wedi tyneru dros y flwyddyn ddiwethaf. Oherwydd bod effeithlonrwydd gwael ac effaith amgylcheddol tyrbinau gwynt ar y tir wedi ei gydnabod – felly hefyd y mae'r cyfleoedd gwell ar gyfer arbed a gwarchod egni, ac mae ymarferoldeb ystod ehangach o ddewisiadau adnewyddadwy wedi dod yn gliriach. Mae wedi bod yn wych gweld yr ymgyrch hon yn cynyddu, yn arbennig y rhwydweithiau y mae wedi eu creu gyda chymunedau lleol. Mae'r troeon wedi denu aelodau newydd, wrth i gyfranogwyr sylweddoli bod teithiau cerdded y Cerddwyr o fewn eu gallu wedi'r cwbl. P'run ai ydych yn teimlo'n gryf am ffermydd gwynt ai peidio, mae'r modd y mae'r prosiect hwn wedi ei ddatblygu yn fodel i ni i gyd ei ddilyn. Gall y Cerddwyr fod yn ymgyrchwyr gwirioneddol dros gefn gwlad!

Y Gymru Wyllt yn diflannu

gan David Bellamy, artist tirlun

Mae afon Diluw, wrth ddisgyn a phefrio, yn cael ei gorfodi drwy le cyfyng garw rhwng Bryn Diluw a Mynydd y Defaid, wedi ei fframio gan gefndir o goed conwydd tywyll. Wedi mynd allan o'r ceunant byr mae'n ymdroelli'n araf i lawr y dyffryn heddychlon cyn troi yn sydyn i'r gorllewin i ddod yn afon Ystwyth. Dyma olygfeydd Canolbarth Cymru ar eu gorau, sy'n nodweddiadol o'r ucheldiroedd hyn, asgwrn cefn Cymru. Golygfeydd y byddai unrhyw barc cenedlaethol yn falch ohonynt. Yna cyrhaeddodd y peiriannau cloddio. Llusgwyd coed o'u gwreiddiau. Tyllwyd traciau oedd yn ddigon llydan i lusgo 'fuselage' bws awyr drwyddynt allan o ochrau'r mynyddoedd, craith enfawr oedd yn weladwy am filltiroedd. Suddwyd tri deg naw o dyrbinau gwynt, hyd at 328 troedfedd o uchder i slabiau o goncrid, gan wneud i'r coed conwydd oedd ar ôl edrych yn fychan ac yn gwbl allan o'u lle yn yr amgylchedd. Mae afon Diluw yn awr yn llifo yn erbyn cefndir o ddiffeithwch diwydiannol.

Pan fod y lleoedd hyn mor bwysig inni? I lawer, yn arbennig y rhai hynny gyda bywydau llawn straen, mae'r heddwch, yr unigedd a'r mannau agored yn cyfoethogi'r synnwyr o ryddid a dianc. Mae gan y rhan fwyaf ohonom angen cryf i ail-wefrio ein batrïau emosiynol ac ysbrydol mewn amgylchedd iachusol. Ni ddylid tanbrisio manteision cymdeithasol ac economaidd yr ardaloedd hyn. Pan fônt yn cael eu hadeiladu en masse ar draws esgeiriau Cymru mae tyrbinau yn ddiraddiad annioddefol sy'n cadw cerddwyr a thwristiaid rhag ymweld â'r ardal.

Wrth gwrs, nid dim ond ymwelwyr yr effeithir arnynt gan ddiwydiannau o'r fath: mae'n rhaid i bobl leol fyw yn ymyl y tyrbinau drwy'r amser gyda'r malltod ychwanegol o

CEFN GWLAD >>>

Llwybrau a Chynlluniau

gan Martin Dowson, Ymgyrchydd dros Gefn Gwlad

Fel y dywedaf wrth fy nghydweithwyr yma yn Swyddfa Caerdydd yn aml, gallwch gael y llwybrau perffeithiaf yn y byd a'r mynediad gorau yn y byd ond os nad oes dim sy'n werth ei weld ohonynt, ni fydd unrhyw un yn eu defnyddio. Dyna hanfod gwaith cefn gwlad.

Cafodd hyn ei bwysleisio yn ddiweddar yn ystod cyrsiau hyfforddi ar lwybrau a drefnwyd gan Mike Mills. Ar ôl cael ei wahodd i gyflwyno sesiwn ar gynllunio, sylweddolwyd bod adeiladau newydd, yn arbennig eiddo preswyl, yn aml yn cael eu caniatáu heb roi ystyriaeth i'r llwybr troed. Ac erbyn i unrhyw un sylweddoli beth sy'n digwydd, mae'r hawl tramwy wedi ei golli o dan y sylfeini.

Safle Rhydycar, yn edrych tuag at Ferthyr

Mae David Bellamy yn artist tirlun sy'n arbenigo'n bennaf mewn golygfeydd o'r arfordir gwyllt, mynyddoedd ac anialwch. Mae wedi ysgrifennu 11 o lyfrau a chyhoeddwyd ei lyfr diweddaraf 'Painting Wild Landscapes' gan Harper Collins yn Hydref 2005. Gwelir ei wefan: www.davidbellamy.co.uk

Mae pwysigrwydd cael rhywun yn cadw llygad ar geisiadau cynllunio a chael ei gynnwys mewn cynlluniau datblygu awdurdodau lleol yn hanfodol. "Ond mae cynllunio yn ddiflas" fe'ch clywaf yn gweiddi. Mater o farn efallai, ond ar ddiwedd y dydd dyma'r un peth a fydd yn gwneud gwahaniaeth i warchod y lleoedd yr ydym yn cerdded ynddynt.

Mae un achos diweddar o'r fath yn ymwneud â chais cynllunio mawr yn Ne Cymru. Ceisiodd 'Merthyr Village Company Limited' (enw braidd yn anaddas!) gyflwyno datblygiadau adwerthu a busnes mawr yn Rhydycar, ar gyrion Merthyr Tudful – er mai safle cyn-lofa oedd yma, a oedd wedi glasu ers blynyddoedd lawer. Yn wir roedd wedi datblygu yn hafan i fywyd gwyllt, gyda choedlan aeddfed, rhostir a nifer o byllau. Roedd hefyd yn cynnig cyfle gwerthfawr i drigolion lleol gerdded yn ymyl eu cartrefi, gyda mynediad rhwydd o'r dref.

Yn dilyn ymchwiliad cyhoeddus, mae Pwyllgor Cynllunio'r Cynulliad Cenedlaethol o'r diwedd wedi gwrthod cais y datblygwr. Meddai Alun Dyment (Grŵp Merthyr), a gynrychiolodd Gymdeithas y Cerddwyr yn yr ymchwiliad cyhoeddus y llynedd, "Fel yr eglurais wrth yr Arolygydd Cynllunio, rydym wedi bod yn cerdded yr ardal hon am flynyddoedd lawer a byddai adeiladu arni wedi gwthio'r cefn gwlad hyd yn oed ymhellach i ffwrdd o'r dref. Mae'r penderfyniad hwn yn dangos y gall pobl leol herio datblygwyr ac amddiffyn ein hawliau i fynediad i gefn gwlad."

Cadarnhaodd Carwyn Jones AC, Cadeirydd y Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio yn y llythyr penderfyniad fod effeithiau i "ansawdd gweledol y tirlun ac i fwynderau cyhoeddus y safle" yn ogystal â'i ddiddordebau o ran gwarchod natur a'i ddiddordebau hanesyddol yn cael eu niweidio yn ormodol gan y cais cynllunio. Mae hyn wedi bod yn gydnabyddiaeth sylweddol y gall mwynderau cyhoeddus yn wir cael eu hamddiffyn os cawn ein dadleuon yn iawn.

Mae'n wirioneddol bwysig felly fod Ysgrifenyddion Cefn Gwlad neu Swyddogion Llwybrau yn cofrestru gyda'r awdurdod lleol i dderbyn ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar lwybrau troed. Arfog, a gaffo rybudd!

weld gwerth eiddo yn gostwng a sŵn. Mae Cymdeithas y Cerddwyr wedi mynd ati i drefnu teithiau cerdded mewn rhai lleoliadau a fygythir gan ddatblygiad o'r fath, i annog cerddwyr a'r bobl leol. Amgylchynir Gilfach Goch, er enghraifft, ar dair ochr gan bedol o dyrbinau gwynt os bydd y datblygiad arfaethedig yn mynd rhagddo. Byddai llai o apêl i gerdded y traciau ar draws y mynyddoedd cyfagos. Yng nghymunedau De Cymru, lle bu'r diwydiant glo yn anrheithio'r tirluniau am gymaint o ddegawdau mae llawer yn teimlo unwaith eto fod yr ardal yn cael ei defnyddio am elw, gan arwain at golli'r synnwyr o berthyn i'r tirlun.

Mae'r holl dyrbinau ym Mhrydain wedi methu a chau hyd yn oed un orsaf bŵer. Mae adeiladu'r tyrbinau a'r isadeiledd cysylltiedig yn ychwanegu llygredd, yn arbennig yn achos seiliau concrid. Lle'r aflonyddwyd ar fawnogydd, fel yng Nghefn Croes rhyddheir swm sylweddol o ollyngiadau CO2 i'r atmosffer, yr union beth y mae'r tyrbinau i fod yn ei leihau. Mae'r strwythurau hyn i lawer, ymhell o fod yn symbol o ddaioni, yn awgrymu bygythiad o garcharu a gormes.

Mae golygfeydd naturiol yn creu synnwyr o les a gallant droi teimladau o iselder neu hwyliau drwg yn deimladau o iwfforia, un o'r elfennau mwyaf pwerus i ddileu straen sy'n adnabyddus i ddyn. Dim ond yn y mannau hyn y gallwn deimlo gwir synnwyr o ryddid, lle gall cân yr ehedydd neu'r nant sy'n disgyn drwy gwm creigiog, a'r griafolen yn plygu yn yr awel roi hwb i'n hysbryd. Byddai ymyrraeth y tyrbinau gwynt yn dileu'r holl fanteision hyn ac yn dinistrio unrhyw synnwyr o wylltineb yn llwyr.

NEWYDDION >>>

Buddugoliaeth i Gerddwyr ym mhobman

Mae Cymdeithas y Cerddwyr yn ddiweddar (20 Mehefin) wedi ennill buddugoliaeth fawr i gerddwyr mewn penderfyniad cofiadwy a wnaed gan Dŵr Arglwyddi. Aeth Cymdeithas y Cerddwyr â'r achos i Dŵr Arglwyddi a herio'r dyfarniad anfad a oedd yn ei gwneud yn anghyfiawn o hawdd i dirfeddianwyr wadu presenoldeb hawliau tramwy drwy ddefnyddio tystiolaeth gudd i'w gwneud yn breifat. Cytunodd Tŷ'r Arglwyddi i ddymchwelyd dyfarniad, a oedd yn caniatáu i dirfeddianwyr ddefnyddio tystiolaeth nad oedd wedi cael ei gwneud yn gyhoeddus, er enghraifft llythyrau i gyfreithwyr neu hyd yn oed sgyrsiau preifat, i awgrymu eu bod yn bwriadu i'r llwybrau fod yn breifat. Golygai hyn y gallai aelodau o'r cyhoedd wastraffu misoedd yn profi presenoldeb hawl tramwy cyhoeddus, dim ond i gael eu trechu gan dystiolaeth nad oeddent yn gwybod dim amdani.

Felly hyd yn oed ar ôl ugain mlynedd o ddefnydd cyhoeddus, roedd gwybodaeth gudd neu breifat yn aml yn trechu hawliadau pwysig am lwybrau troed.

Meddai Janet Davis, Cydlynydd Polisi Hawliau Tramwy yng Nghymdeithas y Cerddwyr: mae hwn yn ddyfarniad pwysig a fydd yn golygu bod yn rhaid i gamau gweithredu i atal llwybrau rhag cael eu cydnabod fel hawliau tramwy cyhoeddus fod yn dryloyw. Mae eu Harglwyddi wedi ailedrych yn fanwl ar y gyfraith ynghylch sut y sefydlir hawliau tramwy, gan fynd yn ôl at ddatganiad yr Arglwydd Denning o'r gyfraith a oedd wedi para am fwy na deugain mlynedd heb ei herio. Mae dehongliadau diweddar wedi golygu bod aelodau o'r cyhoedd yn gwastraffu misoedd yn gwneud hawliadau am lwybrau a oedd yn cael eu trechu gan dystiolaeth nad oedd yn gyhoeddus." Ychwanegodd: "Mae llawer o lwybrau troed yn cael eu defnyddio'n helaeth ond nid ydym yn eu gwerthfawrogi hyd nes eu bod dan fygythiad. Mae rhai yn gysylltiadau allweddol yn y rhwydwaith cludiant, mae llawer yn llwybrau inni ddianc ar eu hyd pan fo arnom eisiau mynd i gefn gwlad am ychydig o dawelwch a dyma'r gampfa rataf yn y wlad. Mae'n bwysig iawn eu bod yn cael eu gwarchod i bawb eu defnyddio."

NEWYDDION YR ARDALOEDD >>>

Disodlwyd **hen ardal Dyfed** gan ardaloedd newydd ar gyfer pob un o'r awdurdodau lleol. Mae gan **Sir Benfro** a **Cheredigion** ysgrifenyddion newydd bellach, gweler isod. Mae **Sir Gaerfyrddin** yn ailadeiladu ei strwythur ardal; mae **Cadeiryddion** y grwpiau yn cymryd yr arweiniad. Yr enw cyswllt yw David Murfin, 01269 850914.

Ysgrifennydd **Ardal Sir Benfro**, Rose Taylor, 17 Gaddarn Reach, Neyland, Sir Benfro, SA73 1PW stratocu@waitrose.com

Ysgrifennydd **Ardal Ceredigion**: Anne Macmillan, Maes y Wawr, Lôn Rhyd y Gwin, Llanfarian, Aberystwyth, 01970 624475, amacmi2606@aol.com
Llawer o ddiolch am waith eu rhagflaenwyr Chris Morris, Sue Johnson, Eileen Beaumont, Andrea Matthews a'u cyd-swyddogion.

Ysgrifennydd **Ardal Gwent Fwyaf** - cymerwyd lle Mike Williams gan Adrian Sheehan, 6 Wood Crescent, Rogerstone, Casnewydd, NP10 0AL. 01633 89625. adrian.sheehan@btinternet.com.

Llawer o ddiolch i Mike.

LLYFRAU >>>

Beloved Tywi
gan Ken Day
Adolygwyd gan David Bush

Mae'r llyfr hwn yn dangos ffotograffau o fannau hardd ar hyd y daith o 67 o filltiroedd ar hyd afon Tywi o'i tharddiad yn y mynyddoedd uwchlaw Tregaron i'r môr ym Mae Caerfyrddin.

Cofnodir angerdd Ken dros Ddyffryn Tywi yn y ffotograffiaeth wych ond cefnogir y ffotograffau hefyd gan erthyglau da am yr ardal gan un ar hugain o ysgrifenwyr gwadd.

Er nad yw'r llyfr yn rhoi manylion am unrhyw deithiau cerdded mae'n sicr yn plannu digon o awgrymiadau ym meddwl y darllenydd ac yn rhoi manylion am gyfeiriadau map i unrhyw un a fyddai'n dymuno ymweld â'r safle y cymerwyd y ffotograff ohono. Er enghraifft mae Rhobert ap Steffan yn adrodd hanes Cymru a'r manylion hynod waedlyd am pam a sut y mae Llewelyn ap Gruffydd yn marw a pham fod cerflun 16 troedfedd o uchder yn pwyso dwy dunnell ar bymtheg mewn dur di-staen yn Llanymddyfri.

Dyma'r math o lyfr a fyddai'n cael derbyniad da fel rhodd neu a fyddai'n ddiddorol i'w adael ar y bwrdd coffi i westeion bori drwyddo, ond mae'n debyg y byddai'n apelio mwy at y ffotograffydd nag at y cerddwr.

Gwasg Gomer, 2006, £19.99

Hill Walking in Wales (ail argraffiad)
gan Peter Hermon
Adolygwyd gan David Bateman

Bydd y rhai hynny sy'n gyfarwydd ag argraffiad cyntaf y canllaw hwn i'r ddwy fil o odreon yng Nghymru yn gwybod beth i'w ddisgwyl: disgrifiad wedi ei ysgrifennu'n dda am amrywiaeth o lwybrau i fyny pob un o'r 166 o gopaon. Y prif wahaniaeth ers yr argraffiad cyntaf yw bod nifer fawr o ffotograffau lliw ardderchog wedi eu cynnwys.

Ychydig o fân gwynion sydd yna: mae'r trefniant yn nhrefn yr wyddor yn y ddwy gyfrol yn gadael y Glyderau a'r Carneddau mewn cyfrolau gwahanol; nid oes unrhyw gyfeiriad at fetrau; nac at gludiant cyhoeddus; ac mae Cadair Idris yn cael ei sillafu yn yr hen ddull Seisnigaidd. Ond doedd dim o hyn yn fy atal rhag prynu copi i mi fy hun.

Cicerone, 2006, £12 am bob cyfrol (dwy gyfrol)

Aerial Britain - The Pembrokeshire Coast Path
DVD, a adroddir gan John Woodvine
Adolygwyd gan B. Penney

Mae John Woodvine yn adrodd disgrifiadau ar DVD sy'n dangos hofrennydd yn ffilmio arfordir Sir Benfro, ac mae'r golygfeydd yn wych. Mae'r sain yn gyfuniad o gerddoriaeth glasurol a llais John Woodvine, sydd weithiau yn ormod. Mae'n driniaeth brws bras, gan roi sylw er enghraifft i hanes milwrol yn y De; crybwyllir y Weinyddiaeth Amddiffyn yng Nghastell Martin gyda'i rwystredigaeth i gerddwyr sy'n cael eu gwahardd o lwybr yr arfordir oni bai bod trefniadau wedi eu gwneud ymlaen llaw. Persbectif y gadair esmwyth a geir yma sydd er ei fod yn hardd yn colli'r mwd, y glaw a'r chwys a brofir gan y cerddwr ar lawr gwlad a gwir gymeriad llwybr yr arfordir.

www.beckmanndirect.com, 01624 816585, £12.99



Blaenau Ffestiniog:
Delweddau gan Jeremy Moore, Geiriau gan Gwyn Thomas
Adolygwyd gan Celia Parry

Mae'r llyfr bwrdd coffi hwn yn rhoi bron i 90 tudalen o ffotograffau gwych i ni, ynghyd â cherddi Gwyn Thomas yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae Jeremy Moor wedi dewis dangos y creithiau diwydiannol ar yr ardal hon o Eryri yn ogystal â'i harddwch naturiol, tra bo Gwyn Thomas, brodor o'r Blaenau, yn talu teyrnged i'r dref a'i phobl. Anrheg ddelfrydol i'w rhoi neu ei derbyn.

Gwasg Gomer, 2007. £19.99



Our Common Land
Gan Paul Clayden MA, Cymdeithas y Mannau Agored
Adolygwyd gan B.Penney

Mae tir comin Cymru yn gorchuddio 8.4% o arwyneb tir Cymru. Mae angen gwarchodaeth a rheolaeth ofalus ar y cyfoeth hwn i warchod ei dirluniau agored gwyllt, y cyfleoedd ar gyfer mynediad a chyfoeth y bywyd gwyllt. Mae griniau pentrefol Cymru yn cyflawni rôl sydd yr un mor bwysig. Mae'r llyfr hwn ar gyfer y sawl sy'n dotio at y naill neu'r llall.

Fe'i diweddarwyd ar gyfer Deddf Tiroedd Comin 2006, ac mae'n ymdrin â rôl a hanes tir comin yn ogystal â deddfwriaeth ddiweddar bwysig sy'n effeithio ar gofrestru tir comin a mynediad ato.

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas y Mannau Agored, 2007 £19.95.Society, 2007, £19.95

Gomer
YWI
wood

UR
N LAND
DITION
nd History
on Land
ge Greens
den MA
ces Society
-Thames, Oxon RG9 2BA

HILLWALKIN
Blaenau Ff
Jeremy Moore